Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

25 Mawrth 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Chwefror ynghylch pobl o Affganistan sydd â phrofiad o yrru lorïau trwm.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n glos gyda Cymru’n Gweithio (gwasanaeth Gyrfa Cymru i oedolion) i sicrhau bod ffoaduriaid sy'n ymgartrefu yng Nghymru yn cael manteisio ar raglen ReAct a ReAct+, y rhaglen sydd wedi’i holynu. Mae’r rhaglen yn gallu darparu hyd at £1500 tuag at gost trwydded gyrru lori yn y DU a chymwysterau cysylltiedig fel y Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol i Yrwyr (DCPC).

Mae swyddogion eisoes wedi pennu’r dystiolaeth sydd ei hangen i gael ymuno â'r rhaglen ReAct, ar ôl ymgynghori ag asiantaethau cefnogi ffoaduriaid a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; nid ydym yn disgwyl y caiff ffoaduriaid o Affganistan unrhyw anhawster i ateb y gofynion hyn.

Bydd y rhaglen ReAct+ newydd yn cyflwyno grant Cymorth Datblygu Personol sydd wedi'i greu i chwalu’r rhwystrau i waith nad ydynt yn gysylltiedig â sgiliau; gellir defnyddio'r grant hwn i helpu gyda chost 'trosi' i drwyddedau gyrru'r DU.

Gall Cymru'n Gweithio drefnu i gyfieithwyr helpu gyda'r wybodaeth, cyngor a’r arweiniad. Mae Cymru'n Gweithio yn gweithio'n agos hefyd â Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod help ar gael i ffoaduriaid i’w gwneud yn gyflogadwy ac i fagu sgiliau.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion yr Is-adran Sgiliau gysylltu'n uniongyrchol ag Alltudion ar Waith i hyrwyddo rhaglen hyfforddi gyrwyr HGV Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl Affganistan ac eraill yng Nghymru sy'n chwilio am waith yn y diwydiant.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy